# COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 24 GORFFENNAF 2019, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | SK Dendy | J Gebbie |
| T Giffard | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| A Hussain | B Jones | M Jones | MJ Kearn |
| DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy | D Patel |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands |
| B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | MC Voisey |
| LM Walters | KJ Watts | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DK Edwards, D Owen, RM James, SG Smith, JC Spanswick, E Venables, SR Vidal, AJ Williams a/ac HM Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |
| Kelly Watson | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol a Swyddog Monitro |

## 339. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Fe wnaeth y Cynghorydd N Burnett ddatgan buddiant, oedd yn rhagfarnu, yn eitem 7 ar yr agenda (tudalen 85), fel Cadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Fytholwyrdd. Fe wnaeth y Cynghorydd M C Voisey ddatgan buddiant, oedd yn rhagfarnu, yn eitem 7 ar yr agenda (tudalen 85), fel Aelod o Bwyllgor Rheoli'r Neuadd Fytholwyrdd. Gadawodd y ddau Aelod y cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei thrafod.

## 340. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor, dyddiedig 19 Mehefin 2019 fel cofnod gwir a chywir.

## 341. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Maer

Cyhoeddodd y Maer ei fod wedi cael mis prysur a bod llawer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal yn yr awyr agored.

Yn gynharach yn y mis, buasai ym mhencadlys Heddlu De Cymru a chael y fraint o'i gyflwyno i'w Fawrhydi y Tywysog Charles. Roedd y Tywysog Charles yn bresennol i ddadorchuddio plac yn nodi hanner can mlynedd ers ffurfio Heddlu De Cymru. Daeth yr Heddlu i fodolaeth ar y 1af o Fehefin 1969 ac mae wedi tyfu i ddod yn un o'r heddluoedd sy'n perfformio orau yn y wlad.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Porthcawl ei ras 10 cilometr gyntaf. Roedd mwy na 3,000 o redwyr yn bresennol a bu Iwan Thomas, sbrintiwr gwych Cymru, yn helpu'r cystadleuwyr i gynhesu. Daeth cannoedd o wylwyr allan yn llu i gefnogi'r digwyddiad, ac roedd ef yn bresennol ynghyd â Maer Porthcawl. Roedd hyd yn oed y Red Arrows yn hedfan heibio i nodi'r hyn y gobeithir fydd yn gychwyn rhedeg pellter yn y dref.

Roedd Gorffennaf fel pe bai'n fis o sioeau amaethyddol ac roedd yn falch i fod yn bresennol yn Sioe Sir Pen-y-bont ar Ogwr ym Mhencoed ac, ar raddfa fwy, y Sioe Frenhinol Gymreig. Cychwynnodd Sioe Sir Pen-y-bont ar Ogwr ym 1946, fel croeso'n ôl i'r rhai fu'n gwasanaethu'r wlad hon yn yr Ail Ryfel Byd. Ychwanegodd ei bod yn parhau i fod yn arddangosiad ardderchog o gydlyniad cymunedol yn ogystal â lle i ddathlu ein treftadaeth amaethyddol.

Dywedodd y Maer ei fod hefyd wedi cael y pleser o agor Canolfan Bryncethin yn swyddogol, yn dilyn cytundeb Trosglwyddo Ased Cymunedol. Roedd yr achlysur hwn yn cynnwys plant ysgol lleol yn canu, gyda chynrychiolwyr Clwb Rygbi a Phêl Droed Bryncethin hefyd yn bresennol.

Y penwythnos diwethaf roedd yn falch i gael gwahoddiad i fod yn bresennol yn y Sioe Geir Clasurol yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cael ei threfnu gan Glwb Ceir Clasurol Morgannwg. Roedd y digwyddiad blynyddol hwn hefyd yn cynnwys cerddoriaeth, bwyd ac adloniant ac roedd hi'n braf gweld y digwyddiad yn cael derbyniad mor dda.

Llongyfarchodd y Maer y Cynghorydd Bridie Sedgebeer a Chris Elmore AS oedd wedi priodi y penwythnos blaenorol. Dymunodd ddyfodol hapus iawn iddynt gyda'i gilydd.

Yn olaf, diolchodd y Maer i'r rheiny a gyfrannodd i gasgliad y banc bwyd yng nghyfarfod y Cyngor y mis diwethaf. Cadarnhaodd fod y banc bwyd yn Stryd Nolton yn dra diolchgar am gasgliad o'r fath.

Aelod y Cabinet – Cymunedau

Dywedodd Aelod y Cabinet, Cymunedau, y gallai Aelodau efallai gofio bod yna, yn ôl yn 2015, bryderon ynghylch dyfodol blodyn eithriadol o brin, sef Tegeirian y Fign Galchog, sy'n tyfu yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, ar ôl i'w nifer syrthio i oddeutu 200. Gan mai yng Nghynffig yn unig y mae Tegeirian y Fign Galchog yn tyfu, mae'r safle yn gartref i holl boblogaeth y DU o'r blodyn bychan, tlws hwn.

Roedd yn falch i hysbysu'r Aelodau fod nifer Tegeirian y Fign Galchog bellach wedi cynyddu i dros 1,000, diolch i gynllun rheoli tirwedd arbennig, sy'n golygu torri glaswellt a chrafu wyneb llac twyni i annog ac ysgogi tyfiant.

Yn wir, bu rhaid i archwiliad diweddar gan y Cyngor ar y tegeirianau hyn a rhai eraill yn y warchodfa 1,300 acer, ddod i ben pan ganfu wardeniaid a gwirfoddolwyr fod yna ormod i'w cyfrif o fewn un diwrnod.

Maent yn amcangyfrif bod niferoedd y tegeirianau yn y warchodfa 1,300 acer, wedi cynyddu i dros 4,000 a bod yna gymaint â 15 rhywogaeth wahanol, yn cynnwys Caineirianau, Tegeirianau Porffor, Tegeirianau Gwenynog a mwy.

Roedd wrth ei fodd fod y Cyngor wedi gallu chwarae rhan ganolog yn gwarchod y llu o gynefinoedd ar y safle a sicrhau bod Tegeirianau Cynffig yn gallu ffynnu.

Dywedodd fod y Cyngor ar y pryd yn paratoi i drosglwyddo rheolaeth y safle pan ddeuai'r les i ben yn 2020 a'i fod, gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, yn parhau i gefnogi Ymddiriedolaeth Corfforaeth Cynffig wrth iddynt geisio penodi corff newydd a allai barhau'r gwaith hwn.

Fel rhan o newyddion da pellach, roedd naw o safleoedd harddaf y Fwrdeistref Sirol wedi ennill gwobrau'r Faner Werdd gan Cadw Cymru'n Daclus.

Mae tri o'r safleoedd yn cael eu cynnal gan y Cyngor, sef Llyn Ardal Wyllt ym Mhorthcawl, Parc Lles Maesteg ac Amlosgfa Llangrallo ac maent yn ymuno â Pharc Gwledig Bryngarw, Ysbyty Glanrhyd, Gardd Farchnad Caerau, Coetiroedd Ysbryd Llynfi, Cymdeithas Lleiniau Gwyllt a Llain Nant y Mochyn Daear.

Yn achos Amlosgfa Llangrallo, hon oedd y ddegfed flwyddyn yn olynol iddi ennill statws y Faner Werdd. Roedd ef yn sicr y byddai'r Aelodau yn ymuno ag ef i longyfarch y gweithwyr a'r gwirfoddolwyr yr oedd eu hymroddiad a'u gwaith caled wedi arwain at y llwyddiant hwn.

Yn olaf, roedd Aelod y Cabinet dros Gymunedau yn falch iawn i gadarnhau bod £3.6 miliwn o gyllid wedi ei roi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu gwelliannau i gludiant lleol a theithio llesol.

Roedd y rhain yn cynnwys llwybrau diogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr, llwybrau teithio llesol newydd, gwelliannau hygyrchedd wrth nifer o arosfannau bws, hyfforddiant diogelwch y ffyrdd a beicio i blant ysgol, a chyrsiau Pass Plus i yrwyr newydd.

Bydd peth o'r cyllid yn ariannu astudiaethau dichonoldeb i lif traffig ar bont Heol Penprysg, wrth inni edrych i weld a oes modd cyflwyno pont hollol newydd fyddai'n ei gwneud yn bosibl cau'r groesfan reilffordd, a gwella capasiti ar brif lein y rheilffordd.

Ymhlith y gwelliannau teithio llesol arfaethedig roedd llwybrau a rennir gan gerddwyr a beicwyr rhwng Bracla a chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, Pencoed a Pharc Technoleg Pencoed, Llangrallo a Stad Ddiwydiannol Waterton a hefyd Barc Manwerthu Waterton, a nifer o welliannau parhaus o gwmpas Coety.

Caiff cyfnod cychwynnol cynllun 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' o gwmpas Ysgol Gynradd Newton hefyd ei gwblhau, gyda'r llwybr teithio llesol yn cael ei ymestyn ar hyd y Promenâd Dwyreiniol a'r Heol Newydd i'r ysgol, a chyflwyno lle newydd i gadw beiciau a sgwteri.

Cafodd y gwelliannau hyn i gyd eu gwneud yn bosibl diolch i Lywodraeth Cymru, ac roedd ef yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth gyson.

Roedd hefyd yn croesawu llwybr newydd i gerddwyr a beicwyr, yr oedd datblygwyr Persimmon yn ei greu ar hyn o bryd rhwng cylchfan Heol Gorllewin y Plas a'r ysbyty ar hyd yr A4061.

<u>Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar</u>

Roedd yr Aelod Cabinet, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, yn siŵr y byddai'r Aelodau wedi croesawu'r newyddion diweddar y bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn derbyn £22.7 miliwn o Gronfa Gweddnewid Cymru Llywodraeth Cymru.

Mae'r arian i gael ei ddefnyddio i ehangu prosiectau peilot llwyddiannus ar draws ardal Cwm Taf sydd bellach, wrth gwrs, yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, i roi mwy o ddewis ac annibyniaeth i unigolion tra'n lleihau'r pwysau ar ofal cymdeithasol, meddygfeydd meddygon teulu ac ysbytai ar yr un pryd.

Dylai hefyd wella profiad pobl o ofal, a hyrwyddo'r uchelgais o ddarparu mwy o ofal yn nes at y cartref.

Mae hyn yn rhan o gynnig uchelgeisiol i weddnewid iechyd a gofal cymdeithasol ar draws ardaloedd Bwrdeistrefi Sirol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'n adlewyrchu anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol, ac yn nodi penllanw misoedd lawer o waith caled.

Bydd llawer o'r hyn y mae'r cynnig yn ceisio'i wneud yn cael ei gyflawni drwy hybu rôl sefydliadau gwerth cymdeithasol sydd eisoes yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl.

Teimlai fod hyn yn newyddion ardderchog i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Efallai y bydd Aelodau hefyd yn dymuno atgoffa eu hetholwyr fod angen i gartrefi, sy'n defnyddio casgliadau ailgylchu'r bagiau porffor ar gyfer cynhyrchion hylendid amsugnol, wneud cais newydd bob blwyddyn er mwyn parhau'n rhan o'r cynllun.

Os nad yw cartref yn rhoi bagiau allan ar dri achlysur yn olynol, dros gyfnod o chwe wythnos, cymerir yn ganiataol nad oes arnynt angen casgliad mwyach.

Gan fod 10,200 o gartrefi wedi ymuno â'r cynllun ar hyn o bryd, mae'n boblogaidd dros ben, ac arweiniodd hyn at ailgylchu 1,161 o dunelli o wastraff AHP yn lle ei fod yn diweddu mewn safleoedd tirlenwi. Mae hyn yn cyfateb i 92 o fysiau deulawr o ran pwysau.

Gan y gall clytiau tafladwy gymryd hyd at 500 o flynyddoedd i bydru'n llwyr, roedd hyn yn ganlyniad gwych ac roedd yn falch bod y gwasanaeth pwysig hwn yn helpu preswylwyr tra'n lleihau'r swm yr ydym yn ei anfon i safleoedd tirlenwi.

Aelod y Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet, Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, fod ein menter boblogaidd 'Ysgolion Allan' yn awr yn fyw ac yn cynnig rhaglen lawn gweithgarwch o weithgareddau haf am ddim i blant lleol.

Wedi eu trefnu gan y Cyngor mewn partneriaeth gydag Awen, Halo, yr Urdd, Menter Bro Ogwr a chynghorau tref a chymuned lleol, yn ogystal â'r ystod eang o weithgareddau a gynigiwyd yr haf diwethaf, eleni, mae gwersylloedd ac academïau chwaraeon wedi cael eu trefnu i helpu plant 3 i 15 oed i ddatblygu medrau ystwythder, cydbwysedd, cydsymud a sgiliau symud sylfaenol pwysig.

Mae'r Urdd hefyd yn cynnal nifer o wersylloedd chwaraeon Cymraeg, tra mae Menter Bro Ogwr yn cynnal cynlluniau chwarae Cymraeg mewn gwahanol leoliadau ar hyd a lled y sir.

Mae Awen yn llwyfannu theatr awyr agored ym Mharc Gwledig Bryngarw gyda pherfformiadau fel Alys yng Ngwlad Hud a Wuthering Heights, ac mae gan Sialens Ddarllen yr Haf eleni thema 'Helfa Ofod', sy'n addas am ei bod yn 50 mlynedd ers glanio ar y lleuad.

Mae Halo yn cynnal cyrsiau carlam nofio AM DDIM sy'n cynnwys amrywiaeth o sesiynau nofio hwyliog i'r teulu, wedi eu hysbrydoli gan Disney, i helpu plant i fod yn ddiogel ac yn hyderus yn y dŵr.

Rhaid archebu'r holl weithgareddau ymlaen llaw a nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ar dudalen ysgolion allan ar wefan ein Cyngor.

Efallai y bydd ar Aelodau hefyd eisiau helpu i hyrwyddo menter Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn eu wardiau. Cynllun yw hwn sy'n cynorthwyo pobl leol i ddod o hyd i waith drwy gynyddu eu rhagolygon gwaith.

Yn ddiweddar, tynnodd y Cyngor sylw at achos preswylydd yn Bracla y daeth ei yrfa fel plymwr i ben am resymau meddygol. Wedi penderfynu ailhyfforddi, cyfarfu'r preswylydd â chynghorwyr, mentoriaid a hyfforddwyr o Gyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr, ac fe wnaethant ei helpu i sicrhau ei swydd ddelfrydol fel hyfforddwr pêl-droed, cwbl gymwysedig. Mae ei waith caled wedi arwain at swydd newydd gyda chlwb pêl-droed proffesiynol.

Un esiampl yw hon o'r modd y mae menter Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cynorthwyo pobl leol i ddod o hyd i waith a gwella'u bywydau. Mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop.

Roedd mwy o wybodaeth ar gael ar dudalen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr ar wefan y Cyngor.

<u>Aelod y Cabinet - Addysg ac Adfywio</u>

Roedd gan Aelod y Cabinet, Addysg ac Adfywio, dri diweddariad ar gyfer yr Aelodau. Yn gyntaf, roedd yn sicr y byddai pawb oedd yn bresennol yn cytuno bod Porthcawl yn edrych yn wych yn y sylw a gafodd ras 10 cilometr 'Healthspan' Porthcawl ar y cyfryngau yn ddiweddar.

Roedd y digwyddiad yn boblogaidd dros ben, ac roedd yn gymorth gwirioneddol i arddangos y dref i'r byd ehangach. Diolchodd i bawb a helpodd i'w wneud yn gymaint o lwyddiant.

Mae digwyddiadau fel hyn, Gŵyl Elvis, twrnamaint Golff Agored Pobl Hŷn neu bencampwriaeth cychod pŵer AquaX i gyd yn dangos potensial Porthcawl fel cyrchfan ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac mae gwelliannau fel amddiffynfeydd môr newydd traeth y dref, y marina ac Adeilad Jennings yn chwarae rhan bwysig yn hyn.

Roedd wedi cael gwybod bod yna ymgeiswyr o dramor wedi cymryd rhan eleni, ac nad oedd llawer ohonynt wedi ymweld â Phorthcawl o'r blaen. Ychwanegodd y byddai'r digwyddiad 10 cilometr yn cael ei gynnal eto y flwyddyn nesaf, ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.

Yn ail, efallai y byddai ar Aelodau eisiau hysbysu eu hetholwyr y gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn awr am docynnau bws ysgol uwchradd.

Gyda thocynnau ar gael ar gyfer tua 1,000 o blant, a fydd yn gymwys pan fyddant yn dechrau blwyddyn saith y mis Medi hwn, dylid gwneud ceisiadau erbyn dydd Gwener 9 Awst.

Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor ddarparu'r broses ymgeisio ar-lein, ac mae'n ffurfio rhan o'n hymdrechion i gynnig ffyrdd mwy effeithlon a chyfleus i breswylwyr gael mynediad at wasanaethau.

Rydym wedi cysylltu â theuluoedd disgyblion cymwys ac wedi rhoi cyngor iddynt sut y gallant wneud cais drwy gyfleuster Fy Nghyfrif ar wefan y Cyngor. Yn ogystal â chyflymu'r broses, mae'r symudiad hwn yn arbed arian drwy gwtogi ar faint o bapur a ddefnyddir, a gellir gwneud cais am docynnau newydd ar-lein hefyd.

Yn olaf, mae llongyfarchiadau yn ddyledus i ddisgyblion ysgol gynradd Garth sy'n deall busnes. Roedd hon yn un o'r ychydig ysgolion yr oedd eto i ymweld â hi (gydag Aelod(au) y Ward). Byddai'n trefnu i gynnal ymweliad o'r fath yn y mis Medi oedd i ddod.

Ar ôl i gwch gwenyn yr ysgol gael ei fandaleiddio, mae syniad sy'n seiliedig ar warchod gwenyn wedi helpu disgyblion Garth i ennill y safle cyntaf yng nghystadleuaeth flynyddol Criw Mentrus Llywodraeth Cymru.

Creodd y plant argraff dda ar y beirniaid gyda'u Crysau-T 'Bee-spoke', a ddyluniwyd ganddynt i hybu cadwraeth a chodi arian i ddarparu mwy o ddiogelwch i gwch gwenyn yr ysgol.

Fel roedd y rhai a oedd yn bresennol yn gwybod, mae gwenyn dan fygythiad oddi wrth blaladdwyr ac yn y blaen, ac felly roedd y syniad busnes hwn yn amserol ac yn foesegol iawn.

Mae'r Criw Mentrus yn herio timau o blant ysgol gynradd i redeg eu busnesau eu hunain, a gwerthu nwyddau a gwasanaethau o'u dewis yn y gymuned leol.

Nod y gystadleuaeth yw helpu disgyblion i gymhwyso eu creadigrwydd a'u sgiliau menter mewn ffordd ymarferol iawn, ac mae'n rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau busnes, cyllidebu a marchnata.

Gorffennodd drwy ddweud bod cael ein henwi fel y gorau yng Nghymru am yr uchod yn gryn gamp.

342. <u>DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD</u>

Cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod wedi bod yn bresennol yn Nhŷ'r Cyffredin yn ddiweddar i annerch y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, ynghylch yr effaith ddigyffelyb y byddai cau ffatri injan Ford yn ei chael ar ein Bwrdeistref Sirol.

Mae ffatri injan Ford wedi cynhyrchu £1.3 biliwn yn uniongyrchol ar gyfer economi Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n gwmni angori, nid yn unig ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, nid yn unig i Gymru, ond i'r DU i gyd. Ynghyd â chynrychiolwyr undebau llafur y ffatri, fe wnaethom annog Ford i aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac aros yng Nghymru i gadw rhai, o leiaf, o'r 1,700 o swyddi tra chrefftus yma.

Mae Ford wedi cyhoeddi cronfa o £1 filiwn ar gyfer y gymuned. Os yw Ford, sydd wedi derbyn dros £140 miliwn o gymorth gan y Llywodraeth dros y blynyddoedd diwethaf, yn cau'r ffatri, yna mae eu hetifeddiaeth i'r gymuned ehangach ac i'r gweithwyr, sydd wedi adeiladu miliynau o geir i Ford ers dros 40 o flynyddoedd, yn gorfod bod yn llawer mwy

nag £1 filiwn yn unig. Byddwn yn cyfarfod â Chyfarwyddwr Ford UK y mis nesaf ac yn cyflwyno'r ddadl honno.

Mae nifer y swyddi a gollir yn ddigynsail, ac felly, mae angen ateb digynsail gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru hefyd. Pwysleisiodd y byddwn yn colli £250 miliwn y flwyddyn o'r economi, a'i bod yn hanfodol buddsoddi ar frys a gweithredu'n gyflym.

Soniodd yr Arweinydd wrth y Pwyllgor am rai o'r prosiectau seilwaith y gellid eu cyflwyno i greu swyddi newydd a rhoi rhywfaint o hyder i'r busnesau, y cymunedau, y teuluoedd a'r trigolion.

Roedd y Cyngor wedi ysgrifennu at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Dddiwydiannol yn Llywodraeth y DU, yn amlinellu'r cynigion. Rydym hefyd yn cyflwyno'r achos mewn cyfarfodydd tasglu a chyda swyddogion.

Mae Swyddfa Bargen Ddinesig Caerdydd, wrth gwrs, yn blaenoriaethu Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer buddsoddiad posibl.

Byddai cyd-Aelodau'n cofio iddo gyhoeddi yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ein bod yn ail-lansio'n Cronfa Adfywio Arbennig ac yn ymestyn ein cronfa 'Kick Start' i gefnogi busnesau bychain a newydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Y prynhawn yma, rydym yn cynnig y dylem roi o'r neilltu yn y rhaglen gyfalaf Gronfa Buddsoddi mewn Cymunedau o £2 filiwn, y gallwn ei defnyddio'n hyblyg o bosibl i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer cyfleoedd buddsoddi ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn y flwyddyn nesaf. Rydym hefyd yn cynnig, yn y rhaglen gyfalaf, gwella Cyffordd Heol Mostyn ar yr A48 yn y Pîl. Mae hyn wedi dod yn hanfodol gan y bydd yn ein galluogi i ddatblygu Stad Ddiwydiannol Village Farm ymhellach, lle mae gennym brinder lle ar gyfer busnesau bychain a chanolig. Dim ond rhai yw'r rhain o'r camau yr ydym yn eu cymryd i ymateb i'r cau arfaethedig.

Dywedodd yr arweinydd fod y penwythnos diwethaf wedi gweld agor Canolfan Gymunedol newydd Bryncethin.

Mae'r hen bafiliwn chwaraeon wedi cael ei droi yn adeilad deulawr newydd sy'n edrych dros y cae rygbi.

Mae'n cynnwys ystafelloedd newid modern, ceginau, ystafelloedd TG, ystafell gyfarfod, neuadd fawr, rhan patio a balconi, a maes parcio pwrpasol.

Clwb Rygbi a Phêl-droed Bryncethin oedd y clwb chwaraeon cyntaf yn y fwrdeistref sirol i gwblhau bargen 'Trosglwyddo Asedau Cymunedol' a chymryd meddiant o'u cae chwarae a'u pafiliwn.

Yn ogystal â chytuno ar les o 35 mlynedd, sicrhaodd y clwb rygbi fwy na £500 mil o gyllid o'n Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol, y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig, Rhaglen y Cyfleusterau Cymunedol, Undeb Rygbi Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ac arian Adran 106.

Mae hyn wedi eu galluogi i drawsnewid y Pafiliwn yn llwyr yn gyfleuster i'r gymuned leol gyfan ei drysori, ac mae'n cynnig model gwych o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Gall trefniadau fel hyn roi bywyd newydd i asedau cymunedol, ac roedd yr Arweinydd yn falch iawn fod y Cyngor wedi cefnogi Clwb Rygbi a Phêl-droed Bryncethin gyda'r prosiect trawsnewidiol hwn.

343. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2018/19

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, adroddiad ar Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018/19 i'w gymeradwyo, gan ofyn i'r Aelodau nodi'r dyfarniadau a gyrhaeddwyd yn lleol ynghylch gwasanaethau gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Rhoddai'r adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndir, ac yn dilyn hynny, esboniai fod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn rhoi pwyslais cryf ar hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth, yn ogystal â gofalwyr sydd hefyd angen yr un peth.

Eglurodd mai prif nod ac amcan yr adroddiad (a'r cyflwyniad cysylltiedig) oedd rhoi trosolwg ar ofal cymdeithasol i'r Cyngor a phobl sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd hefyd yn anelu at amlygu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â nodi blaenoriaethau ar gyfer 2019/20.

Cyfeiriai paragraff 4 o'r adroddiad at y canllawiau ar gyfer yr adroddiad, oedd yn nodi'r gwahanol adrannau oedd yn ymwneud â'r chwe safon ansawdd cenedlaethol ar gyfer llesiant, oedd wedi eu nodi yn fformat pwyntiau bwled yn yr adran hon o'r adroddiad.

Dangosai'r adroddiad a'r wybodaeth ategol fod gwasanaethau'n effeithiol ar y cyfan, o'u hasesu yn erbyn diwallu anghenion unigolion y mae angen cymorth gofal cymdeithasol arnynt. Er bod y wybodaeth yn yr adroddiad a'r cyflwyniad yn cadarnhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gwella ar y cyfan, roeddent hefyd yn nodi meysydd lle roedd angen gwella a dangoswyd y rhain yn y blaenoriaethau ar gyfer 2019/20.

Roedd yr Adroddiad drafft wedi ei atodi yn Atodiad 1 yr adroddiad eglurhaol, ac roedd llythyr gan Arolygiaeth Gofal Cymru, yn amlinellu adolygiad o berfformiad yr awdurdod lleol yn y maes hwn, wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

Rhoddai paragraff 4.11 o'r adroddiad rai nodau a chamau gweithredu allweddol oedd yn cael eu gweithredu/cynnig, mewn perthynas â blaenoriaethau gwasanaeth cyfan a hefyd rai blaenoriaethau ychwanegol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol i Blant fel y cyfryw. Yna rhoddai'r cyflwyniad fanylion am Adroddiad Blynyddol 2018/19, fel a ganlyn:-

| **Oedolion - Ffeithiau a Ffigurau allweddol** | **2017/18** | **2018/19** |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau ac ail atgyfeiriadau ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion | 7604 | 7469 |
| Nifer yr oedolion a gynorthwyir yn y gymuned | 5177 | 5198 |
| Nifer y bobl a dderbyniodd becyn teleofal | 3162 | 3451 |
| Nifer yr atgyfeiriadau i gymorth adfer yn y gymuned (ARC) | 1010 | 1043 |
| Nifer y bobl a ddargyfeiriwyd o wasanaethau prif ffrwd i'w helpu i aros yn annibynnol gyhyd ag sydd modd | 116<br>857<br>(yn ARC) | 122<br>1162<br>(yn ARC) |
| Nifer y bobl a gynhelir mewn gofal preswyl/nyrsio | 676 | 700 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd | 1.52 | 4.79 |

**Plant – Ffeithiau a ffigurau allweddol**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y cysylltiadau yn ystod y flwyddyn | 6677 | 7945 |
| Nifer y plant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth | 384 | 381 |
| Y ganran o'r holl rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth 12 mis ar ôl gadael gofal | 61% | 64% |
| Canran y plant 7-17 oed sy'n fodlon ar y gofal a'r cymorth a gawsant | 84% | 86% |
| Nifer y rhai sydd wedi gadael gofal oedd yn derbyn Cymorth gan yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid ar 31 Mawrth | 116 | 153 |
| Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol | 86% | 72% |
| Y nifer ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | 161 | 191 |

**Oedolion – ein taith mewn rhifau**

**Drwy wneud y peth iawn…**

- Cynorthwyo unigolion i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn hirach, trwy ddatblygu a buddsoddi yn ein gwasanaethau gofal yn y cartref a thechnoleg gynorthwyol (nodwch y perfformiad yn yr adran ffeithiau & ffigurau); a
- Cynyddu ein capasiti Gofal Ychwanegol (gan ddyblu o 39 o welyau yn 17-18 i 79 o welyau yn 18-19) sy'n rhoi sicrwydd i unigolion fod yna leoliad lle y gellir cael gafael ar ofal ar sail 24/7, ond gan cadw'r annibyniaeth o gael eich drws ffrynt eich hun.

**Mae arbedion wedi dilyn....**

- Gan fod lleoliad Cynllun Gofal Ychwanegol yn costio tua £115-120 yr wythnos i'r Cyngor, o'i gymharu â chostau o tua £600 yr wythnos am leoliad mewn cartref gofal – mae'n arwain at arbedion o dros £600 mil.

**Plant - ein taith mewn rhifau**

**Drwy wneud y peth iawn…**

Datblygu a buddsoddi mewn lleoliadau arbenigol a dewisiadau llety â chymorth/annibynnol o fewn y fwrdeistref sirol, a gwella ein gwasanaethau maethu mewnol, sy'n mynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng ein defnydd o asiantaethau maethu annibynnol (IFA) a'n tîm maethu mewnol.

| **Canran yn ôl Math o Leoliad:** | **2014** | **2019** |
|---|---|---|
| Preswyl Annibynnol | 3.16% | 2.1% |
| Preswyl Mewnol | 1.70% | 2.1% |

| | | |
|---|---|---|
| Maethu annibynnol | 26.21% | 16.80% |
| Maethu teuluol | 15.78% | 16.80% |
| Maethu Mewnol | 39.08% | 39.37% |
| Cyn Mabwysiadu | 4.61% | 4.99% |
| Lleoliad gyda Rhiant | 7.28% | 14.96% |
| Byw Annibynnol/â Chymorth | 0.97% | 2.36% |

| Canran y ôl Ardal Lleoliad: | **2014** | **2019** |
|---|---|---|
| O fewn Awdurdod Lleol CBS Pen-y-bont ar Ogwr | 68.93% | 69.82% |
| Yng Nghymru (awdurdod gerllaw) | 16.02% | 16.27% |
| Yng Nghymru (heb fod yn awdurdod gerllaw) | 8.01% | 7.09% |
| Yn Lloegr | 2.43% | 1.84% |

| **Percentage by Placement Type:** | **2014** | **2019** |
|---|---|---|
| Independent Residential | 3.16% | **2.1%** |
| In-house Residential | 1.70% | **2.1%** |
| Independent Fostering | 26.21% | **16.80%** |
| Kinship Fostering | 15.78% | **16.80%** |
| In-house Fostering | 39.08% | **39.37%** |
| Pre Adoption | 4.61% | **4.99%** |
| Placement with Parent | 7.28% | **14.96%** |
| Independent/Supported Living | 0.97% | **2.36%** |

| **Percentage by Placement Location:** | **2014** | **2019** |
|---|---|---|
| Within BCBC LA | 68.93% | **69.82%** |
| In Wales (neighbouring authority) | 16.02% | **16.27%** |
| In Wales (not neighbouring authority) | 8.01% | **7.09%** |
| In England | 2.43% | **1.84%** |

**Mae arbedion wedi dilyn....**

Gyda chyfanswm gwirioneddol y gwariant ar leoliadau maethu a lletya LAC yn gostwng rhwng 17-18 a 18-19 – er gwaethaf pwysau chwyddiant

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2019/20**

Mae'r nodau a'r camau allweddol fel a ganlyn:

- Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl dros y cymorth y maent yn ei dderbyn drwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth;
- Parhau i wella'r ffyrdd y mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth da i'r cyhoedd, gan gynnwys cynyddu'r cymorth sydd ar gael drwy gydgysylltwyr cymunedol lleol;
- Parhau i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau comisiynu;
- Lleihau'r galw drwy raglenni ymyrraeth a chymorth cynnar wedi'u targedu;
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a lles cymunedol ar gyfer ein trigolion gyda phartneriaid ym maes iechyd;
- Sefydlu model newydd o ddarpariaeth breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac edrych am y ffyrdd gorau o gwrdd â'u hanghenion fel unigolion, gan gynnwys cymorth y tu hwnt i 18 oed drwy gynnig llety arbenigol;
- Cwblhau model gwasanaeth trosglwyddo i helpu plant anabl i symud yn esmwyth i fyd oedolion;

- Cynorthwyo'r rhai sy'n gadael gofal i sicrhau llety priodol;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddiwallu anghenion lleol;
- Gweithio gyda phartneriaid a'r trydydd sector i gryfhau cymunedau a nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau yn lleol;
- Galluogi grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros asedau cymunedol;
- Sicrhau trosglwyddiad esmwyth i ardal Bwrdd Iechyd newydd Cwm Taf Morgannwg i sicrhau na fydd y newid yn cael effaith anffafriol ar unrhyw ddinesydd;
- Cefnogi gofalwyr wrth iddynt gyflawni eu rolau;
- Recriwtio a chadw gofalwyr ar draws yr ystod o wasanaethau maethu;
- Sicrhau bod Diogelu yn fusnes craidd ar draws y Cyngor;
- Sicrhau'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodwyd yn y strategaeth ariannol tymor canolig;
- Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion sefydliad sy'n newid;
- Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i'r staff i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol.

Roedd blaenoriaethau penodol ychwanegol wedi eu nodi ar ddiwedd pob adran yng nghorff yr adroddiad.

Nododd Aelod fod Absenoldeb oherwydd Salwch wedi cynyddu yng Nghyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol o 8.8%, a gofynnodd a oedd rheswm hysbys dros hyn a beth oedd yn cael ei wneud i geisio lleihau'r cynnydd hwn mewn absenoldeb. Gofynnodd hefyd beth oedd canran y salwch yn gyffredinol yn y Gyfarwyddiaeth.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, er y bu cynnydd mewn absenoldeb oherwydd salwch ar draws y Gyfarwyddiaeth, fod y Rheolwyr Grŵp yn dilyn y canllawiau a amlinellwyd ym Mholisi Salwch ac Absenoldeb y Cyngor, a bod y sefyllfa yn cael ei monitro'n fanwl gyda chymorth Adnoddau Dynol er mwyn gostwng y lefelau presennol. Nodwyd bod lefelau wedi codi mewn meysydd/adrannau o'r Gyfarwyddiaeth lle cafwyd trawsnewid a newid sylweddol, h.y. drwy ailstrwythuro a rhesymoli staff ac yn y blaen.

Nododd Aelod yr arbedion, yr oedd yn rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol eu gwneud fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC), gan gadw mewn cof hefyd fod Cynllun Gweithredu yn ei le i ad-dalu gorwariant blaenorol yn y Gyfarwyddiaeth. Gofynnodd sut y gellid cyflawni hyn heb i'r lefelau uchel o wasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd lithro.

Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, drwy ddatgan y bydd yn rhaid cynnal safonau uchel o wasanaeth i'r henoed a'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, er y byddai hyn yn her, yn enwedig gan fod angen gwneud arbedion pellach, flwyddyn ar ôl blwyddyn fel rhan o Gyllideb y Cyngor.

Roedd a wnelo â gwneud pethau'n wahanol ac yn fwy arloesol na chynt, a gweithio'n gynyddol gyda rhanddeiliaid allweddol a darparwyr allanol fel ein cydweithwyr Iechyd. Cyfaddefodd, fodd bynnag, ei bod yn mynd i fod yn anodd ac yn heriol iawn i gyrraedd y safonau uchel a gyflawnwyd yn y blynyddoedd blaenorol o ran lefelau'r cymorth, a oedd yn edwino'n fewnol o flwyddyn i flwyddyn, o dan y cyfyngiadau a osodwyd gan y SATC.

Dywedodd un Aelod fod Adrannau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, yn benodol, yn darparu gwasanaethau statudol hanfodol ar gyfer yr ifanc, yr henoed a'r mwyaf agored i niwed, a'u bod yn cael eu llywodraethu gan reoliadau a'u harolygu ar lefelau gwasanaeth a pherfformiad. Roedd hi'n bwysig felly fod y safonau uchel yr oedd pobl Pen-y-bont ar Ogwr wedi arfer â'u derbyn, o ran y gwahanol systemau cymorth oedd yn eu lle, yn cael eu cynnal a'u cadw.

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, fod Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac yntau yn cael trafodaethau gonest a didwyll ynghylch lefel yr arbedion yr oedd yn rhaid eu gwneud yng Nghyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a beth fyddai effaith hyn, yn enwedig o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r SATC gyfredol yn cwmpasu'r 4 blynedd nesaf ac mae'r arbedion y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu gwneud yn ystod y cyfnod hwn yn ddigynsail, yn enwedig wrth ystyried bod angen £10 miliwn yn 2020/21 ac yna £8 miliwn pellach yn 2021/22. Ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol, sicrhaodd yr Aelodau y byddai'r safonau uchel yr oedd y gwasanaeth yn eu darparu ar hyn o bryd yn cael eu cynnal. Yr hyn na allai ei warantu, fodd bynnag, oedd cynnal amrywiaeth eang y gwasanaethau ar y lefel a gynigir ar hyn o bryd.

Gwyddai Aelod drwy ymchwil, fod ystadegau yn arfer bod ar gael ledled Cymru o dan y ddeddfwriaeth briodol, yn amlinellu nifer y bobl a oedd wedi manteisio ar Ofal Seibiant a'r cynnig o Seibiannau Byr ac yn y blaen am gyfnod, fel rhan o'u cyfnod o ymadfer ar ôl salwch neu lawdriniaeth. Gofynnodd a oedd y data hwn yn dal i fod ar gael.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, fod fframwaith perfformiad wedi'i gyflwyno o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym yn 2016, drwy holl awdurdodau lleol Cymru, a fyddai'n adlewyrchu allbynnau o'r math y cyfeiriai'r Aelod atynt. Fodd bynnag, wrthi'n cael ei wneud yr oedd y gwaith hwn, ar hyn o bryd. Ychwanegodd fod y Gyfarwyddiaeth newydd ymgymryd â phrosiect mewn perthynas â Gofal Seibiant hefyd, er mwyn ceisio gwella a chael dewisiadau mwy hyblyg i gleientiaid, a byddai hi'n rhannu gwybodaeth am hyn gyda'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Daeth Aelod â'r drafodaeth ar yr eitem hon i ben drwy gymeradwyo'r System Rotâu ac anogodd bob Aelod i gymryd rhan yn y gwaith hwn wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018/19

344. DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN GYFALAF - CHWARTER 1, 2019-20

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid dros dro a Swyddog Adran 151 adroddiad, a'i ddiben oedd:-

- Cydymffurfio â gofynion Cod Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Cyllid Cyfalaf 2018
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Gyfalaf o 1 Ebrill hyd 30 Mehefin 2019 (Atodiad A)
- Gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 i 2028-29 (Atodiad B)
- Nodi'r dangosyddion darbodus ac eraill a ragwelir ar gyfer 2019-20 (Atodiad C)
- Cymeradwyo trosglwyddiad cyllideb refeniw o £2,349,797 o gyllidebau dirprwyedig ysgolion i gyllidebau ar draws y Cyngor, ar ôl derbyn arian grant o'r un gwerth â hynny gan Lywodraeth Cymru, i gyfrannu at wariant cyfalaf fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.7.

Fel cefndir, dywedodd fod CIPFA, ym mis Rhagfyr 2017, wedi cyhoeddi argraffiad newydd o'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn awdurdodau lleol. Roedd y Cod diwygiedig yn gosod gofyniad newydd ar awdurdodau lleol i bennu Strategaeth Gyfalaf, i gael ei chymeradwyo gan y Cyngor, yn dangos bod yr awdurdod yn gwneud penderfyniadau gwariant cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth ac yn cymryd i ystyriaeth briodol stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb, cynaladwyedd a fforddiadwyedd. Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid dros dro a Swyddog Adran 151, ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi'r cyd-destun hirdymor ar gyfer gwneud penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi ac yn rhoi ystyriaeth briodol i risg a gwobrwyo, a'r effaith ar gyflawni'r canlyniadau pwysicaf.

O ran monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2019-20, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid dros dro a Swyddog Adran 151 fod y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer y cyfnod uchod, yn dod i gyfanswm o £54.471 miliwn ar hyn o bryd, yr oedd £36.665 miliwn ohono yn dod o adnoddau'r Cyngor, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, gyda'r £17.806 miliwn oedd yn weddill yn dod o adnoddau allanol. Rhoddwyd dadansoddiad o hyn yn Nhabl 1 yn yr adran hon o'r adroddiad fesul Cyfarwyddiaeth.

Roedd Tabl 2 yn yr adroddiad wedyn yn crynhoi'r tybiaethau ariannu presennol ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019-20. Caiff yr adnoddau cyfalaf eu rheoli er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cael y budd ariannol mwyaf posibl. Gall hyn gynnwys ad-drefnu cyllid er mwyn gwneud y gorau o grantiau'r Llywodraeth.

Rhoddai Atodiad A i'r adroddiad fanylion y cynlluniau unigol o fewn y rhaglen gyfalaf, gan ddangos y cyllid oedd ar gael yn 2019-20 (yn ogystal â pheth sylwebaeth yn gysylltiedig â'r rhaglen), o'i gymharu â'r gwariant a ddisgwylid. Cafodd £8.286 miliwn o gyllid ei dreiglo ymlaen i 2019-20 ar gyfer cynlluniau nas cwblhawyd yn 2018-19, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet ar Berfformiad Ariannol 2018-19, a oedd yn cynnwys y cynlluniau a ddangosid ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad.

Yna cyfeiriai'r adroddiad at gynllun a lithrodd i 2020-21, fel y manylir ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad, yn ogystal ag ail-broffilio cynllun Neuadd y Dref Maesteg.

Roedd y rhan nesaf o'r adroddiad yn amlinellu nifer o gynlluniau newydd, a ariennir yn allanol, oedd wedi eu cymeradwyo ac a ymgorfforwyd hefyd yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

Yna amlinellai paragraff 4.7 o'r adroddiad nifer o gynlluniau newydd, a ariennid gan y Cyngor, i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf. Y rhain oedd:-

- Canolfan Ddata TGCh;
- Cyffordd Heol Mostyn, y Pîl;
- Y Neuadd Fytholwyrdd;
- Buddsoddi mewn Cymunedau

Dywedai paragraff 4.8 fod y Cyngor, ym mis Mawrth 2019, wedi cymeradwyo newid i'r amlen ariannu ar gyfer Band B y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ac i hyn gael ei ymgorffori yn y Rhaglen Gyfalaf. Ymhelaethwyd ar y rhesymau am hyn yn yr adran hon o'r adroddiad.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid dros dro a'r Swyddog Adran 151 fod nifer o gynlluniau eraill o fewn y rhaglen uchod a oedd yn aros am gadarnhad o gyllid allanol dros gyfnod yr haf.

Byddai'r rhain yn llunio adroddiadau pellach i'r Cabinet a'r Cyngor maes o law. Roedd y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig wedi ei chynnwys yn Atodiad B i'r adroddiad.

Yna, eglurodd fod y Cyngor, ym mis Chwefror 2019, wedi cymeradwyo'r Rheolau diwygiedig ar gyfer Gweithdrefnau Ariannol, gan bennu'r Cabinet fel y corff i dderbyn yr adroddiad monitro ar y Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus. Rhoddai Atodiad C i'r adroddiad fanylion y dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2018-19, y dangosyddion amcangyfrifedig ar gyfer 2019-20, a nodwyd yn Strategaeth Gyfalaf y Cyngor a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2019-20, yn seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig.

Cyfeiriai adran olaf naratif yr adroddiad at bwnc Monitro'r Strategaeth Gyfalaf.

Roedd hyn hefyd yn gofyn am fonitro buddsoddiadau nad ydynt yn rhai sy'n cael eu rheoli gan y Trysorlys a rhwymedigaethau hirdymor eraill.

O'r blaen, cymeradwyodd y Cyngor £1 filiwn yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer prynu asedau buddsoddi a gwariodd £520 mil ar gaffael adeilad swyddfa, oedd yn cynhyrchu incwm rhent o £56 mil y flwyddyn neu ychydig dros 9% o elw ar y buddsoddiad. Roedd £480 mil pellach ar gael o fewn y Rhaglen Gyfalaf, ond hyd yn hyn nid oedd opsiynau addas wedi'u nodi yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, a fyddai'n arwain at enillion rhesymol ac ar lefelau risg derbyniol. Yn y dyfodol, gallai'r Cyngor ystyried ehangu ei bortffolio buddsoddi mewn eiddo ac, os felly, byddai angen adolygu'r meini prawf a'r strategaeth fuddsoddi a gwneid hyn ar sail risg.

Daeth â'i chyflwyniad i ben drwy ddweud bod gan y Cyngor nifer o rwymedigaethau hirdymor eraill a oedd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangoswyd enghreifftiau o'r rhain ym mharagraff 4.15 o'r adroddiad.

Cyfeiriodd un o'r Aelodau at baragraff 4.7 o'r adroddiad oedd yn dwyn y pennawd 'Rhaglen Gyfalaf 2019-20 ymlaen', a'r ffaith fod yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wedi mynegi ei bryder yn gynharach yn y drafodaeth ynghylch y gyllideb ar gyfer yr Adran Addysg. Dywedai'r rhan hon o'r adroddiad fod adroddiad monitro'r gyllideb Chwarter 1 i'r Cabinet, yn gynharach y mis hwn, yn amlinellu'r arian refeniw, a ryddhawyd o ganlyniad i hysbysiad hwyr am arian grant untro gan LIC tuag at gyflog a phensiynau athrawon a diffoddwyr tân. Âi'r paragraff hwn o'r adroddiad ymlaen i ddweud bod y Cabinet wedi cynnig sefydlu 'Cronfa Buddsoddi mewn Cymunedau' gyda £2 filiwn o'r arian hwn er mwyn cefnogi'r rhaglen gyfalaf ar gyfer mân waith, drwy ei gwneud yn bosibl cyflawni mwy o welliannau cyfalaf ar Asedau'r Cyngor yng nghymunedau lleol Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Gan wybod am y pwysau parhaus ar gyllid Ysgolion, gofynnodd a oedd yn beth doeth i roi'r arian hwn yn y Rhaglen Gwaith Cyfalaf (yn hytrach na'i roi i ysgolion).

Dywedodd yr Arweinydd mai bychan fyddai effaith hyn o ran dyrannu arian yn y dyfodol ar gyfer pensiynau athrawon ac yn y blaen, oherwydd, os nad yw Llywodraeth Cymru yn neilltuo arian grant o 2020/21 ar gyfer hyn ar sail gylchol, yna bydd y cyllid y mae'r Cyngor wedi'i ddyrannu yn cael ei basbortio'n ôl i gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion fel nad ydynt dan unrhyw anfantais.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:-

1. Yn nodi'r Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod o 1 Ebrill 2019 hyd 30 Mehefin 2019 (Atodiad A).
2. Yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B).
3. Yn nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2019-20 (Atodiad C).
4. Yn cymeradwyo trosglwyddiad cyllideb refeniw o £2,349,797 o gyllidebau dirprwyedig ysgolion i gyllidebau ar draws y Cyngor, i gyfrannu at Wariant Cyfalaf, fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.7 o'r adroddiad.

345. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Y Cynghorydd A Hussain i Aelod y Cabinet Addysg ac Adfywio:**

A allai'r Aelod o'r Cabinet oedd yn gyfrifol am dwristiaeth ddweud wrth y Cyngor am ei gynlluniau i gefnogi sgiliau yn y sector twristiaeth yn ychwanegol at adael inni wybod am y bylchau yn y ddarpariaeth a'r data a nodi beth y gallai'r Cyngor ei wneud i beri bod ein cyrchfannau glan y môr yn boblogaidd?

**Ymateb**

Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC), 2018-2022, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2018, yn nodi'r fframwaith ar gyfer rheoli'r weledigaeth dwristiaeth hyd 2022. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau yn cael ei gefnogi gan y Cynllun Gweithredu Cyrchfan (CGC) sy'n manylu ar weithgareddau penodol. Mae'r camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yn y CGC yn canolbwyntio ar gyfleoedd strategol allweddol ar gyfer datblygu, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ariannu allanol a, lle bo'n bosibl, darparu mewn partneriaeth. Mae'r CRhC yn cynnig y weledigaeth ganlynol:

Datblygu economi ymwelwyr ffyniannus ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n dathlu cryfderau'r lle, yn cefnogi swyddi, yn creu cyfleoedd busnes ac yn gwella'r amrywiaeth o amwynderau sydd ar gael i ymwelwyr a phobl leol.

Mae'r CGC yn cefnogi cyflawni'r weledigaeth hon drwy ganolbwyntio camau gweithredu yn erbyn y blaenoriaethau canlynol:

(a) Cefnogi datblygiad y cynnyrch twristiaeth
(b) Cefnogi'r broses o ddatblygu seilwaith twristiaeth
(c) Codi proffil a denu mwy o ymwelwyr i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r CRhC yn nodi'n benodol bod datblygu adnoddau dynol twristiaeth yn flaenoriaeth. Yn fwy penodol, mae gan y CGC y blaenoriaethau canlynol;

2.5.1 Annog pobl i fanteisio ar hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid a gwybodaeth am gynnyrch:
Bydd busnesau'n cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu pan fyddant ar gael, yn enwedig drwy gyflwyno dulliau sydd eisoes wedi'u treialu.

2.5.2 Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi ym maes rheoli twristiaeth:
Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i helpu i nodi anghenion hyfforddiant lleol, ar y cyd â mentrau datblygu economaidd, ochr yn ochr ag ymgyrch ymwybyddiaeth i annog gweithredwyr i ymgymryd â gwaith datblygu rheolwyr a hyfforddi staff.

2.5.3 Annog busnesau newydd i gychwyn ym maes twristiaeth:

Darperir cymorth a chyngor i helpu pobl i gychwyn busnesau twristiaeth newydd drwy'r mecanweithiau sydd ar gael i CBS Pen-y-bont ar Ogwr a lle bo angen, cyfeirir at Busnes Cymru.

Yn 2018, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ynghylch llinellau cyfathrebu yn y dyfodol a chynrychiolaeth ar gyfer yr economi ymwelwyr yn y gyrchfan, yn dilyn penderfyniad Cymdeithas Dwristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr i roi'r gorau i'w gweithgareddau. Argymhellwyd bod Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr (BBF) mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn fecanwaith cyfathrebu, rhwydweithio, eiriol ac ymgynghori ar gyfer y sector twristiaeth. Mae aelodaeth Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys busnesau sefydledig a rhai sydd newydd gychwyn, o fewn amrywiaeth eang o sectorau busnes. Mae masnachwyr unigol, microfusnesau, busnesau bychain a chanolig yn ogystal â chwmnïau mawr rhyngwladol i gyd yn bresennol o fewn yr aelodaeth. Mae'n rhoi cyfle i bobl fusnes leol gyfarfod â chwsmeriaid a chyflenwyr newydd, dysgu sgiliau newydd, rhannu arferion gorau, a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ffactorau a allai effeithio ar eu busnes. Yn bwysig, mae'r fforwm hefyd yn rhoi cyfle i bobl fusnes leisio'u barn. Mae'r BBF yn darparu gweithdai sgiliau busnes mewn pynciau fel marchnata, y cyfryngau cymdeithasol, codi arian a rheoli adnoddau dynol. Caiff pobl eu hannog i rwydweithio â rhai eraill sy'n bresennol, yn ogystal â dysgu oddi wrth lu o hwyluswyr arbenigol. Achlysur Gwobrau Blynyddol Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr yw pinacl calendr busnes Pen-y-bont ar Ogwr ac mae ganddo gategori Busnes Twristiaeth pwrpasol. Ym mis Mawrth, cynhaliodd y BBF ddigwyddiad oedd yn targedu busnesau twristiaeth yn benodol ac fe'i cynhaliwyd yng Nghlwb Golff y Grove ym Mhorthcawl.

Mae grant cychwynnol Pen-y-bont ar Ogwr yn gynllun grant hyblyg a ddarperir drwy bartneriaeth â Menter Dur y DU a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n darparu cymorth ariannol i ficro-fusnesau newydd neu rai sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u lleoli, neu sy'n bwriadu lleoli, ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Diffinnir micro-fusnes fel un sydd â llai na deg o gyflogeion a chyfanswm trosiant neu fantolen o lai na €2 filiwn. Yn y sector twristiaeth micro-fusnesau a busnesau bychain a chanolig sydd amlycaf, ac mae nifer o fusnesau twristiaeth wedi elwa o'r grant yn y blynyddoedd diwethaf.

Adran yr economi a chyfoeth naturiol sy'n gyfrifol am dwristiaeth. Lledaenir cyfleoedd ar gyfer cymorth sgiliau i bob sector, gan gynnwys twristiaeth, gan staff o fewn yr adran, drwy'r sianelau cyfathrebu arferol megis yr e-newyddion busnes.

Ddwywaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cefnogodd CBS Pen-y-bont ar Ogwr Ysgol Fusnes Dros dro am ddim, sy'n rhoi'r wybodaeth a'r offer angenrheidiol i gyfranogwyr ddechrau eu busnes eu hunain. Mae hon yn agored i bobl sy'n ystyried unrhyw fath o fusnes, gan gynnwys twristiaeth.

Cymerir pob cyfle i ddeall yn well sut i ddatblygu economi ymwelwyr ffyniannus ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n dathlu cryfderau'r lle, yn cefnogi swyddi, yn creu cyfleoedd busnes ac yn gwella'r ystod o amwynderau sydd ar gael ar gyfer ymwelwyr a phobl leol. Fe wnaethom gymryd rhan mewn rhaglen ymchwil dan arweiniad Croeso Cymru oedd yn cynnwys casglu gwybodaeth am lefelau meddiannaeth, tueddiadau twristiaeth, boddhad ymwelwyr a mwy. Yn ogystal, rydym yn cynnal ein hymchwil annibynnol ein hunain. Mae'r wybodaeth hon yn llywio'r dull a defnyddiwn ac yn dangos i ba raddau rydym yn cyflawni ein gweledigaeth.

Yn ôl data Model Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM), mae twristiaeth eisoes yn chwistrellu refeniw y mae ei wir angen i mewn i'r economi leol (£347.30 miliwn) ac yn cynnal 4,041 o swyddi. Ers 2013 bu cynnydd cyson yn effaith economaidd twristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gyda gwerth economaidd twristiaeth yn cynyddu o £289.86 miliwn yn 2013 i £347,30 miliwn yn 2018.

Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer yr ymwelwyr a nifer dyddiau ymwelwyr wedi cynyddu'n debyg gyda nifer yr ymwelwyr wedi codi o 3.55 miliwn yn 2013 i 3.72 miliwn yn 2018 a dyddiau ymwelwyr wedi cynyddu o 5.25 miliwn yn 2013 i 5.61 miliwn yn 2018. Roedd y twf hwn yn rhagori ar y targedau a osodwyd yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau 2018-2022 ac yn gosod y fwrdeistref sirol ymhlith llwyddiannau Prifddinas-ranbarth Caerdydd o ran twristiaeth.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd A Hussain**

Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) 2018-22 yn weledigaeth wych ac yn eich Cynllun Gweithredu Cyrchfan (CGC) sut ydych chi'n codi'r proffil ac yn denu mwy o ymwelwyr i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, er nad ydym wedi gweld unrhyw gynnydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf?

**Ymateb**

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet, Addysg ac Adfywio, sylw'r Aelod at y paragraff olaf o'i ymateb uchod. Ychwanegodd fod nifer yr ymwelwyr yn cael ei fesur hefyd, er mwyn cyfrif faint o bobl oedd yn mynd i drefi o fewn y Fwrdeistref, yn enwedig Porthcawl, fel un o'n prif gyrchfannau glan y môr. Hefyd, gellid monitro faint o bobl sy'n aros mewn gwestai a thai llety ac yn y blaen i fesur faint o bobl sy'n ymweld â lleoedd fel Porthcawl ar eu gwyliau. Gellid cyflawni pethau fel hyn ac roedd STEAM o gymorth o ran mesur data perthnasol penodol (fel y manylwyd yn yr ymateb gwreiddiol), yn ogystal ag adlewyrchu tueddiadau a chymharu data yn gywir o'r gorffennol i'r presennol. Ychwanegodd Aelod y Cabinet, Addysg ac Adfywio, fod prosiectau a digwyddiadau adfywio yn mynd ymlaen, nid yn unig o fewn y prif atyniadau twristaidd fel Porthcawl ond ledled y Fwrdeistref Sirol gyfan.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd N Burnett**

Ar wahân i Borthcawl, beth sy'n cael ei wneud i ddenu twristiaid mewn rhannau eraill o'r Fwrdeistref Sirol?

**Ymateb**

Er bod yna ddata i fesur hyn i raddau, fel gyda'r data a gasglwyd ynghylch nifer yr ymwelwyr â Phorthcawl, roedd hyn yn dibynnu i raddau ar lefel y diddordeb a ddangoswyd ganddynt, wrth gwblhau arolygon a oedd ar gael i aelodau o'r cyhoedd, a fyddai, pe caent eu cwblhau, yn rhoi darlun cywirach o nifer y bobl a ymwelodd â Phorthcawl a lleoedd eraill, a ph'un a oedd yr ymwelwyr hyn yn ymweld â lle arbennig am y dydd ynteu am gyfnod hwy, h.y. am wyliau. Roedd yn y fwrdeistref sirol 5 neu 6 o westai â brand cenedlaethol, ac nid oedd yr un ohonynt ym Mhorthcawl. Roedd nifer o leoedd o ddiddordeb hefyd i ymweld â hwy ar draws y fwrdeistref y tu allan i Borthcawl, er enghraifft, Neuadd y Dref Maesteg, twyni Merthyr Mawr, Tŷ a Pharc Gwledig Bryngarw, Castell Coety, Tŷ Carnegie, Canolfan Siopa Dylunwyr Pen-y-bont ar Ogwr, y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, ymhlith eraill ar-lein, y gellid edrych arnynt ar wefannau fel 'Bridgend Bites'. Ychwanegodd hefyd fod yna nifer o ddigwyddiadau'n cael eu trefnu'n aml gan ddarparwyr allanol, yn enwedig yn nhref Pen-y-bont ar Ogwr, drwy ddarparu nifer o wahanol stondinau, fel arfer dros gyfnod y penwythnos, yn gwerthu bwydydd a chynnyrch delicatessen.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd R Stirman**

Pa gamau sy'n cael eu cymryd i gyfeirio twristiaid at fannau o ddiddordeb yn y Fwrdeistref Sirol?

**Ymateb**

Ar-lein drwy wahanol wefannau, boed y rhain yn rhai'r Cyngor (e.e. Bridgend Bites) neu eraill, drwy hyfforddiant 'Llysgenhadon' Twristiaeth, a ariennir gan Gronfa Datblygu Gwledig yr UE, (y mae'r Aelod a ofynnodd y cwestiwn yn un ohonynt), neu drwy sefydliadau eraill sy'n ymwneud â threfnu rhyw ddigwyddiad penodol. Hefyd drwy hysbysebu digwyddiadau, drwy arddangos hysbysiadau cyhoeddus mewn mannau y mae'r Cyngor yn ymweld â hwy'n rheolaidd. Roedd hysbysiadau a chyhoeddiadau ar gael mewn canolfannau croeso. Gorffennodd drwy ddweud bod arwyddion ffordd parhaol hefyd yn cyfeirio twristiaid i leoedd fel Tŷ Bryngarw, y Pafiliwn Mawreddog a mannau eraill o ddiddordeb ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.

**Y Cynghorydd M Voisey i'r Arweinydd**

O ganlyniad i'r ffaith nad yw Prif Weinidog Llafur Cymru wedi cymeradwyo ffordd liniaru'r M4 o amgylch Casnewydd, sut bydd prosiect y Fargen Ddinesig yn ymadfer ar ôl y penderfyniad hwn sy'n drychinebus i economi De Cymru, ac a ddylai'r Cyngor hwn gael ail bleidlais ynghylch a ydym am barhau i fod yn bleidiol i Fargen y Ddinas, yn awr a'r ffeithiau wedi newid mor ddramatig?

**Ymateb**

Mae mater ffordd liniaru'r M4 wedi bod yn destun cryn ddadlau, er y bydd y cynllun Metro Plus o gymorth. Mae hwn i gael ei ariannu ar y cyd gan brosiect y Fargen Ddinesig/Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn cynnwys cynnig ar gyfer parcio a theithio. Roedd yna ymdrech yn mynd ymlaen i ddod o hyd i gyllid ar gyfer Cysylltedd Digidol a, gyda hyn mewn golwg, roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal i edrych ar ffyrdd o sicrhau cyllid cenedlaethol y tu allan i arian y Fargen Ddinesig, i wella cysylltedd Band Eang.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd M C Voisey**

A fyddai'r arweinydd gystal â rhoi gwybod sut y bydd Rhanbarth Caerdydd, a'r Awdurdod hwn yn neilltuol, yn elwa ac yn manteisio ar fuddion rhwydwaith symudol 5G a'r defnydd uchaf a ragwelir o geir trydan, er budd refeniw'r Awdurdod hwn.

**Ymateb**

Dywedodd yr Arweinydd fod gwelliannau mewn perthynas â ffordd liniaru'r M4 a thagfeydd traffig o gwmpas twnnel Casnewydd yn brosiect nad oedd erioed wedi bod yn rhan o gynigion prosiect y Fargen Ddinesig, felly nid oedd yn gweld yr angen i gynnal ail bleidlais ynglŷn ag a ddylai Pen-y-bont ar Ogwr aros yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ai peidio, fel yr oedd yr Aelod wedi'i awgrymu yn ei gwestiwn gwreiddiol. Rhoddodd sicrwydd hefyd bod Awdurdod Trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y mae'n gwasanaethu fel Cadeirydd iddo, wedi cynnig gweithio'n agosach â Llywodraeth Cymru, i adnabod ffyrdd y gellid lleihau neu liniaru tagfeydd traffig yn y rhwydwaith briffyrdd uchod ac o'i gwmpas. Byddai'r gost o adeiladu ffordd liniaru'r M4 yng Nghasnewydd oddeutu £1.6biliwn ac roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad oedd hyn yn fforddiadwy. Roedd yna fwriad i gyfrannu cyllid, fodd bynnag, tuag at becyn cynllun gwella trafnidiaeth gyhoeddus yn lle hynny, a oedd yn fwy fforddiadwy ac a fyddai'n gwella'r sefyllfa bresennol yn ardal Casnewydd, ac o bosibl yn cyflwyno gwelliannau ledled De Ddwyrain Cymru, yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai ymdrechion hefyd yn cael eu gwneud trwy gyflwyno ymgyrch briodol, i berswadio'r cyhoedd i ddefnyddio mwy o drafnidiaeth sector cyhoeddus, (yn hytrach na'u cerbyd(au) eu hunain), megis bysiau, rheilffyrdd a seiclo. Byddai hyn yn helpu i leihau tagfeydd cerbydol a llygredd o allyriadau.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd T Thomas**

Ysgrifennais at yr Arweinydd yn ddiweddar ynglŷn â Thŷ’r Great Western Power, sy’n fargen economaidd rhwng De-ddwyrain Cymru a Swindon a Bryste. Nododd yr Arweinydd ei fod yn cefnogi’r polisi hwn a’i fod yn ategu’r Fargen Ddinesig.

Un o bryderon y Fargen Ddinesig yw bod swm mawr o arian yn cael ei ail-ddosbarthu i Gaerdydd. Sut y gallwn fod yn dawel ein meddwl na fydd y polisi hwn yn ail-ddosbarthu rhagor o arian lleol ar draws coridor yr M4 i Dde-orllewin Lloegr?

**Ymateb**
Mae Cytundeb Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys 10 awdurdod lleol a'i fwriad yw ymdrin â phrosiectau am y 15 mlynedd nesaf. O ran Pwerdy Economaidd Mawr y Gorllewin, nid oes ymrwymiad wedi'i roi i hwn fel rhan o'r Fargen Ddinesig. Adroddiad a syniad yn unig ydoedd ar y cam hwn, er bod y ddau ranbarth yn rhannu rhai buddiannau cyffredin. Roedd hyn oherwydd bod buddiannau i'r naill ochr a'r llall, gan gynnwys cynyddu opsiynau ar gyfer trafnidiaeth reilffordd rhwng y lleoliadau y manylir arnynt ym mharagraff cyntaf y cwestiwn atodol uchod a thu hwnt, h.y. teithio ar reilffyrdd o Dde Orllewin Cymru i orsaf Paddington Llundain. Yn ogystal, roedd buddiannau cyffredin sylweddol mewn perthynas â chynyddu'r cysylltedd presennol rhwng economïau a sectorau addysg uwch ac ymchwil De Ddwyrain Cymru a De Orllewin Lloegr. Bydd manteisio ar botensial llawn ynni adnewyddadwy Môr Hafren hefyd yn gofyn gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol ar ddwy ochr Môr Hafren. Nodau ac amcanion Pwerdy Economaidd Mawr y Gorllewin oedd cysylltu rhanbarthau yng Nghymru a Lloegr yn well, er mwyn hybu twf economaidd mwy cynhwysol ar gryn raddfa, trwy gysylltu dulliau cydweithredu allweddol. Byddai hyn o bosibl yn cynnwys cyflwyno Strategaeth Ddiwydiannol a fyddai'n arwain at isadeiledd cynyddol, a dulliau twf arloesol rhwng gwahanol ardaloedd. Roedd y rhain yn debyg iawn i rai o nodau ac amcanion prosiect y Fargen Ddinesig. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod y ddwy fenter hyn yn dal i fod yn y camau cynnar ar hyn o bryd.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd J P Blundell**

A fyddai’r Arweinydd yn cytuno, bod angen i’r Cyngor weithio gydag awdurdodau cyfagos, yn enwedig y rhai sy’n ymwneud â Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, fel bod trigolion sy’n meddu ar gymwysterau proffesiynol addas yn gallu anelu at a llwyddo i gael swyddi â chyflog uchel o fewn y rhanbarth maent yn byw ynddo.

**Ymateb**
Roedd yr Arweinydd yn cydnabod a chytuno â'r pwynt hwn. Nododd fod cysylltedd sylweddol rhwng economi Pen-y-bont ar Ogwr a rhanbarth Dinas Abertawe ac felly Bargen Abertawe yn y gorllewin. Roedd yr awdurdod lleol yn rhan o Weithlu a sefydlwyd ac a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, er mwyn edrych ar opsiynau cyflogaeth ar y safle hwnnw petai ffatri injans Ford yn cau, sy'n ymddangos yn debygol o ddigwydd. Gyda'i gilydd, roedd partneriaid yn anelu at ddenu buddsoddiad mewnol i sicrhau swyddi yn lle'r rhain mewn busnesau newydd a busnesau presennol, i wrthbwyso'r 1,700 swydd a fyddai'n cael eu colli petai Ford yn cau'r ffatri injans. Gallai hyn fod yn brosiectau naill ai ar y safle Ford presennol, neu mewn lleoliad priodol arall yn rhywle arall yn y Fwrdeistref Sirol.

**Y Cynghorydd T Thomas i Aelod y Cabinet - Cymunedau**

A wnaiff Aelod y Cabinet amlinellu unrhyw gynlluniau sut y bydd y Cyngor hwn yn lleihau allyriadau carbon gyda’r bwriad o sicrhau bod gweithgareddau’r Cyngor yn ddi-garbon net erbyn 2030?

**Ymateb**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar flaen y gad o ran datrysiadau a phrosiectau ynni carbon isel arloesol. Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn ymwneud â Rhaglen Gwres System Smart ers 2013 pan gyflwynodd holiadur cyn-gymhwyso i'r Sefydliad Technolegau Ynni (ETI) ac fe'i dewiswyd o blith dros 70 o awdurdodau lleol ledled y DU i fod yn un o'r 3 awdurdod ar y rhestr fer a gafodd flaenoriaeth yn y rhaglen. Cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Ynni Ardal Leol a Chynllun Ynni Clyfar ar 19 Chwefror 2019. Mae'r rhain yn cynnig llwybr tuag at ddatgarboneiddio gwres o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Strategaeth Ynni Ardal Leol yn cynnig llwybr tuag at gyflawni targedau datgarboneiddio ac mae'r Cynllun Ynni Clyfar yn darparu'r manylion am sut y bydd technolegau, modelau busnes a chynigion defnyddwyr yn cael eu defnyddio a'u profi er mwyn gallu cynyddu'r raddfa a chyflawni'r targedau datgarboneiddio.

Mae'r Cynllun Ynni Clyfar yn mapio'n ffurfiol y ddarpariaeth yn y tymor agos ar gyfer cam cyntaf y Strategaeth Ynni Ardal Leol. Mae'r Cynllun Ynni Clyfar wedi'i alinio â chyfnodau amser Cyllideb Carbon Llywodraeth Cymru ac mae'n nodi'r prosiectau a'r gweithgareddau i'w cyflawni yn ystod y cyfnod hwn. Nod y Cynllun Ynni Clyfar yw sicrhau'r manteision canlynol:

- Datgarboneiddio gwres o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgogi twf economaidd
- Darparu cyfleoedd newydd am swyddi
- Denu busnesau newydd a rhai presennol i dreialu mentrau a thyfu o fewn y fwrdeistref sirol

Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod Datganiad Argyfwng Hinsawdd Llywodraeth Cymru ar 29 Ebrill 2019 a'r ymrwymiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i sicrhau sector cyhoeddus niwtral o ran carbon erbyn 2030.

Bydd Pen-y-bont ar Ogwr ar flaen y gad yn y trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch nodi adnoddau ac arian y bydd angen eu darparu, i alluogi'r Cyngor i gyflawni amcan niwtraliaeth garbon ar gyfer ei weithgareddau ei hun (gwasanaethau a daliadau eiddo).

Bydd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i weithio tuag at senario di-garbon net ac i sicrhau'r gostyngiad mwyaf posibl yn yr allyriadau carbon a gynhyrchir gan weithgareddau ac asedau'r Cyngor ei hun. Er mwyn cyrraedd y nod hon, bydd y Cyngor yn parhau i wneud y canlynol:

Gwella perfformiad ynni asedau ym mhortffolio adeiladu'r Cyngor i'r eithaf;

Cynorthwyo pob ysgol i leihau ynni, costau ac allyriadau;

Gwella'r ymgysylltu, y cyfathrebu a'r hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag arbed ynni a charbon ym mhob adran o fewn y Cyngor;

Ymgysylltu â staff i fynd ati i wella ymwybyddiaeth o arbed ynni a chostau;

Sicrhau y gosodir mesuryddion effeithiol a monitro er mwyn lleihau gwastraff ynni y gellir ei osgoi yn effeithiol;

Cynnal archwiliadau ynni i nodi, mesur a blaenoriaethu cyfleoedd i arbed ynni o fewn ein hadeiladau a chynyddu cyfranogiad technolegau ynni adnewyddadwy i leihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd T Thomas**

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad bod yn rhaid i bob cartref newydd fod mor agos ag sydd modd at fod yn ddi-garbon erbyn 2021.

A derbyn bod llawer o gartrefi wedi mynd drwy'r broses gynllunio'n ddiweddar neu wrthi'n cael eu hystyried ar gyfer eu hadeiladu o gwmpas 2021, sut gwnawn ni sicrhau bod y cartrefi hyn yn ddi-garbon?

**Ymateb**

Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Polisi o'r fath, mae'r broses lle mae Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried ceisiadau cynllunio yn dod dan y gyfraith cynllunio a gyflwynwyd drwy ddeddfwriaeth ganolog, sef Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac mae awdurdodau lleol yn gaeth i'r ddeddfwriaeth hon. Pe bai Llywodraeth Cymru'n penderfynu gorfodi'r uchod, byddai'n rhaid i CBS Pen-y-bont ar Ogwr ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru newid eu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) priodol, fel y gallai'r Pwyllgor Rheoli Datblygu alw datblygwyr safle i gyfrif, h.y. drwy osod amod arnynt i gyflwyno agweddau di-garbon i adeiladau fyddai'n cael eu hadeiladu fel rhan o ddatblygiadau tai newydd. Oni châi hyn ei wneud a bod newid yn y ddeddfwriaeth uchod, ni fyddai gan awdurdodau lleol, yn anffodus, y grym i orfodi Datblygwyr i adeiladu anheddau di-garbon.

**Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd P A Davies**

Sut mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn dod ymlaen gyda lleihau allyriadau carbon drwy oleuadau stryd (lanternau)?

**Ymateb**

Rhaglen waith oedd yn parhau i fynd ymlaen oedd hon. Roedd gwaith wedi cael ei gwblhau ar dir Amlosgfa Llangrallo, lle y gosodwyd goleuadau ynni isel yn y maes parcio. Roedd y rhain yn rhatach i'w rhedeg na goleuadau ynni arferol. Roedd y Cyngor yn edrych drwy'r amser am ffyrdd o leihau'r ôl-troed carbon ym mhob peth yr oedd yn ymwneud ag ef, lle roedd cyfle i wneud hynny. O ran goleuadau stryd fel y cyfryw, a'r newid sy'n mynd ymlaen, roedd y Cyngor yn edrych ar ddarparu colofnau, oedd yn gollwng allyriadau carbon is, yn ogystal ag edrych ar ddulliau arloesol eraill, gan gynnwys cysylltedd WiFi, fel bod modd i aelodau'r cyhoedd gael mynediad at WiFi drwy'r math newydd hwn o golofnau.

346. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10